

Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Grŵp Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
1 Rhagfyr 2021

RHAN 1

1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2021 ("Gorchymyn 2021") yn diwygio Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) 2018 ("Gorchymyn 2018"), sy'n dynodi cyrff mewn perthynas â Gweinidogion Cymru. Effaith Gorchymyn 2021 yw mewnosod cyrff pellach yn y rhestr o gyrff dynodedig a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2018. Diben dynodiad o'r fath yw galluogi i wybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan gyrff o'r fath gael eu cynnwys o fewn Cynnig Cyllidebol.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Mae adran 126A(9) a (10) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf Llywodraeth Cymru 2006") yn darparu y gall Gorchymyn 2021 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol neu'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

2.2 Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o'r farn y dylai Gorchymyn 2021 fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol gan nad oes unrhyw ffactorau sy'n awgrymu y dylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol. Mae Gorchymyn 2021 yn dynodi cyrff at ddibenion cynnwys gwybodaeth, o fewn cynnig Cyllidebol, sy'n ymwneud â'r adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan y cyrff hynny. Bydd cynnwys adnoddau'r cyrff dynodedig o fewn Cynnig Cyllidebol yn lleihau'r anghysondebau rhwng y Gyllideb, y Cynnig Cyllidebol a'r cyfrifon cyfunol, ond ni fydd yn cael unrhyw effaith ar derfynau adnoddau'r cyrff hynny. Felly, gellir ystyried mai gweinyddol yw pwnc Gorchymyn 2021 gan mai effaith gyflwyniadol fydd iddo o ran y Gyllideb.

2.3 I'r gwrthwyneb, mae ffactorau sy'n tueddu i gefnogi'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol yn cynnwys achosion lle mae'r ddeddfwriaeth yn golygu gwariant sylweddol gan y llywodraeth. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn arwain at wariant sylweddol gan y llywodraeth.

2.4 Mae adran 126A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i gorff gael ei ddynodi am flwyddyn ariannol benodol, neu ei ddynodi'n gyffredinol. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol o'r farn bod y cyrff y mae Gorchymyn 2021 yn gymwys iddynt yn parhau i gael eu dynodi'n "gyffredinol". Mae hyn yn unol â'r holl orchymynion blaenorol ac mae'n golygu y bydd y cyrff yn parhau i gael eu dynodi ac na fydd angen eu dynodi'n flynyddol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir y Gorchymyn hwn yn 2021 gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 126A(2) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dyma'r pumed Gorchymyn i'w wneud gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau hyn.
- 3.2 Yn unol ag adran 126A(4) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori, lle y bo hynny'n briodol yn eu tyb hwy, â Thrysorlys EM, ac mae Trysorlys EM wedi cydsynio y dylid gwneud Gorchymyn 2021.
- 3.3 Mae Gorchymyn 2021 yn cael ei wneud o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol yn unol ag adran 126A(9) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 3.4 Mae'r cyrff yn cael eu dynodi'n "gyffredinol" yn unol ag adran 126A(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y cefndir

- 4.1 Ym mis Mawrth 2015, argymhellodd Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad, fel rhan o'i ymchwiliad i Arferion Gorau o ran Prosesau'r Gyllideb, y dylai Llywodraeth Cymru yn weithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru i helpu i sicrhau bod y broses o alinio'r gyllideb a chyfrifon Llywodraeth Cymru â ffin gyllidebol y Trysorlys yn cael ei chwblhau'n brydlon ac yn llwyddiannus.
- 4.2 O dan y trefniadau presennol, mae 3 prif ddogfen sy'n nodi sefyllfa ariannol y cyrff a ariennir gan Gronfa Gyfunol Cymru;
 - y Gyllideb i gynllunio, monitro a rheoli incwm a gwariant;
 - y Cynigion Cyllidebol Blynyddol ac Atodol i gael cymeradwyaeth y Senedd ar gyfer incwm a gwariant; ac
 - ar ôl diwedd y flwyddyn, y Cyfrifon Cyfunol, i adrodd am incwm a gwariant a rhoi cyfrif amdanynt.
- 4.3 Dylai ffiniau pob un o'r dogfennau hyn, hynny yw incwm a gwariant y cyrff sydd wedi'u cynnwys, fod yn ddigon tebyg i ddeall y cysylltiadau a'r rhyngberthynas sydd rhyngddynt. Mae hyn yn hybu tryloywder a dealltwriaeth o wariant cyhoeddus Llywodraeth Cymru.
- 4.4 Bydd alinio yn sicrhau bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r un ffiniau ar gyfer Cynigion Cyllidebol ag a ddefnyddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer rheoli gwariant cyhoeddus, pan fo'r cyrff hynny'n rhai dynodedig a pherthnasol. Bydd alinio'n golygu bod cwmpas y prif fecanweithiau rheoli yn gyson. Roedd y ddau gam alinio cyntaf yn cywiro'r

gwahaniaethau perthnasol. Mae sicrhau bod pob corff llywodraeth ganolog newydd yn cael ei alinio yn atal cam-alinio yn y dyfodol.

Diben

4.5 Mae Gorchymyn 2021 yn diwygio Gorchymyn 2018 sy'n dynodi cyrff penodedig mewn perthynas â Gweinidogion Cymru er mwyn cynnwys, o fewn cynnig Cyllidebol, yr adnoddau y disgwylir i'r cyrff hynny eu defnyddio. Effaith Gorchymyn 2021 yw ei fod yn mewnosod rhagor o gyrrff yn y rhestr o gyrrff dynodedig a gynhwysir yn yr Atodlen i Orchymyn 2018.

Effaith

4.6 Bydd dynodi'r cyrff yng Ngorchymyn 2021 yn caniatáu alinio Cynigion Cyllidebol yn agosach â Ffin Cyfrifon Cyfunol presennol Llywodraeth Cymru. Felly, gellir cynnwys yr adnoddau y disgwylir iddynt gael eu defnyddio gan y cyrff dynodedig o fewn Cynnig Cyllidebol.

4.7 Felly, mae Gorchymyn 2021 yn alinio ffin cyllideb Trysorlys EM â'r Cynigion Cyllidebol ac â Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, gan alluogi i wariant gael ei olrhain yn haws drwy broses y Cynigion Cyllidebol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mantais hyn fydd rhoi mwy o dryloywder a dealltwriaeth o wariant cyhoeddus Cymru, gan ei gwneud yn haws i'r Senedd, a'r cyhoedd yn ehangach, ddeall a herio cynlluniau gwariant ac alldro. Yn ei dro, dylai hyn gyfrannu at gyfranogiad ac ymwybyddiaeth well o wariant cyhoeddus yng Nghymru, gan gyfrannu'n anuniongyrchol at nodau llesiant.

4.8 Mae Gorchymyn 2021 yn arwain at ddull mwy effeithlon o ran craffu ar Gynigion Cyllidebol gan y Pwyllgor Cyllid ac ar y cyfrifon cyfunol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan y bydd amrywiannau rhwng y gyllideb a'r alldro yn fwy cyson. Yn ogystal, bydd nifer y cysoniadau sy'n ofynnol o fewn yr atodlenni sy'n cefnogi Cynigion Cyllidebol yn cael eu lleihau.

4.9 Ni fyddai unrhyw effaith ar gyllidebau'r Prif Grwpiau Gwariant, a bychan fyddai'r effaith ar baratoi'r cyfrifon cyfunol.

4.10 Nid yw Gorchymyn 2021 yn diwygio nac yn cydgrynhoi unrhyw ddarn arall o ddeddfwriaeth.

5. Ymgynghori

5.1 Barnwyd nad oedd yn gymwys cynnal ymgynghoriad ar wahân gan fod ymgynghori helaeth eisoes wedi'i gynnal gyda swyddogion o bob parti, gan gynnwys ar alinio, fel rhan o'r broses o greu'r cyrff newydd a fewnosodir yn yr Atodlen i Orchymyn 2018 gan Orchymyn 2021. Ar gyfer cyrff presennol, cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân ym mis Mai 2019 ac yn sgil hynny mae ymgysylltu helaeth wedi parhau'n uniongyrchol gyda'r cyrff a swyddogion Llywodraeth Cymru.

5.2 Ymgynghorwyd â Thrysorlys EM yn unol ag adran 126A(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ar y cyrff a y cynigid eu dynodi, ac mae wedi cydsynio y dylid gwneud Gorchymyn 2021.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

6.1 Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi i gyd-fynd â Gorchymyn 2021; ni ddisgwylir iddo beri unrhyw gost i fusnes, llywodraeth leol na'r sector gwirfoddol. Mae hyn yn gyson â Chod Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth.

6.2 Mae'r cyrff sydd i'w dynodi yng Ngorchymyn 2021 yn rhan o reolaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru yn barod ac felly mae Grwpiau Llywodraeth Cymru eisoes yn monitro'r gwariant yn ystod y flwyddyn.